**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 39**
**18 Gorffennaf 2024, 14:00-16:30**

**Siambr y Cyngor, Penmorfa**
**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Amy Richmond-Jones (AMJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Richard Felton (RF) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| James Gibb (JB) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Gillian Perry (GP) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Andrew Cornish (AC) | Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr |
| Gwilym Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Prif Uwcharolygydd Dros Dro Steve Davies (SD) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dr Ardiana Gjini (AG) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elen James (EJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Vikki Butler (VB) | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Carys Lloyd-Jones (CJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Non Davies (ND) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Michael Langford (MF) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Mererid Lewis (ML) | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Emily Woodward-Esseen (EWE) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ciaran Humphreys (CH) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Claire Bryant (CB) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walters (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias | Cyngor Sir Ceredigion *(Cofnodion)* |
| Rhidian Jones | Cyngor Sir Ceredigion (Cyfieithu) |
| **Aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol** | |

Elizabeth Mullan – Sylwedydd
Dawn Evans – Sylwedydd
Maggie Young – Sylwedydd
Margaret Hughes – Sylwedydd
Hugh Hughes – Sylwedydd
Jim Ralph – Sylwedydd

| | |
|---|---|
| **39.1** | **Ymddiheuriadau, Cyflwyniadau a Datgeliadau o Ddiddordeb** |

Cafodd y cyfarfod ei gynnull gan y Cadeirydd Hazel Lloyd Lubran (HLL), fe groesawodd bawb a oedd yn bresennol, rheiny oedd yn bresennol yn y Siambr ym Mhenmorfa yn ogystal â dros Zoom. Cydnabu a chroesawodd HLL Aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:**
Y Cynghorydd Matthew Vaux – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Wyn Evans – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Keith Evans – Cyngor Sir Ceredigion
Greg Jones – Cyngor Sir Ceredigion
Iwan Cray – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cynghorydd John Davies – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Linda Jones – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Gavin Bown – Cyfoeth Naturiol Cymru (Is - gadeirydd)
Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Victoria Jones – Llywodraeth Cymru
Christine Harley – Gwasanaeth Prawf EF

| | |
|---|---|
| **39.2** | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 4 Mawrth 2024** |

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04.03.2024 yn gywir.

| | |
|---|---|
| **39.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol 4 Mawrth 2024** |

Cytunwyd bod y camau a gofnodwyd yn y cyfarfod ar 04.03.24 wedi'u cwblhau neu wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

Nodwyd bod Tîm Cefnogi BGC wedi derbyn neges yn ddiweddar oddi wrth ARFOR, gan holi a allai'r Bwrdd gefnogi ei raglen ymchwil gan ganolbwyntio ar fonitro rhagolygon recriwtio unigolion ifanc yng Ngheredigion.

**Cam gweithredu: Bydd gwybodaeth yn cael ei chylchredeg ynghylch rhaglen ymchwil gan ARFOR sy'n ymchwilio i ragolygon recriwtio unigolion ifanc yng Ngheredigion.**

| | |
|---|---|
| **39.4** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Diweddariad y Cynllun Cyflawni.** |

Darparodd Timothy Bray (TB) grynodeb o'r Cynllun Cyflawni, y Diagram Hierarchaidd, a'r siart sefydliadol. Yn dilyn cais yn y cyfarfod blaenorol, rhannwyd rhestr o acronymau a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Cyflawni hefyd. Mae'r cyfleuster olrhain camau gweithredu yn ddogfen fyw sy'n monitro gweithgaredd y Bwrdd yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau a nodwyd.

**Cam gweithredu: Bydd copi terfynol o'r Cynllun Cyflawni a'r rhestr o acronymau yn cael ei rannu ag aelodau yn dilyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cynllun Cyflawni gan aelodau'r Bwrdd a bydd yn cael ei gyfieithu a'i gylchredeg i'r aelodau a'i gyhoeddi ar lein.**

Awgrymodd HLL y dylai pob dogfen a rennir ar-lein gynnwys ymwadiad yn nodi bod ei chynnwys yn destun adolygiad a diweddariad rheolaidd. Yn ogystal, dylai pob dogfen arddangos rhif y fersiwn yn glir.

**Cam gweithredu: Cynnwys nodyn ar ddogfennau a rennir / a rennir ar-lein yn nodi – Yn destun adolygiad a diweddariad rheolaidd, gan gynnwys arddangos rhif fersiwn y ddogfen yn glir.**

Gofynnodd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) sut mae'r Celfyddydau a Diwylliant yn cael eu cipio a'u hymgorffori yn y Cynllun. Cadarnhaodd TB fod diweddariadau sy'n berthnasol i'r thema hon yn cael eu cofnodi o fewn y Cyfleuster Olrhain Camau Gweithredu. Nododd y diweddariad diweddaraf fod y Grŵp Celfyddydau a Diwylliant wedi cyfarfod ac wedi trafod creu Strategaeth Ddiwylliant. Mae aelodau'r Grŵp yn awyddus i dderbyn Y Strategaeth Genedlaethol yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau ei bod yn cyd fynd yn lleol â'r amcanion cenedlaethol. Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Celf a Diwylliant wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref. Hysbysodd Non Davies (ND) y grŵp bod ymgynghoriad cenedlaethol ar agor ar hyn o bryd ynglŷn â blaenoriaethau diwylliannol y Llywodraeth, a bod Cyngor Sir Ceredigion (CSC) yn bwriadu cyflwyno ymateb.

**Cam gweithredu: Sicrhau bod y Grŵp Celfyddydau a Diwylliant yn cael ei gynrychioli ar y siart sefydliadol.**

| 39.5 | Cynllun Lles Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lansio / Digwyddiadau |
|---|---|

Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried opsiynau ar gyfer lansiad ffurfiol o Gynllun Llesiant Lleol 2023-2028. Cyfarfu grŵp o wirfoddolwyr, a chafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o hyrwyddo'r Cynllun. Roedd consensws, o ystyried yr amser a oedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r Cynllun, efallai fyddai'n fwy buddiol i'r Bwrdd gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth i hyrwyddo'r Cynllun ac i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r BGC a'i waith.

Gyda hyn mewn golwg, roedd Cadeiryddion y Grwpiau Cyflawni wedi cynnal trafodaethau pellach yn eu cyfarfodydd perthnasol ynghylch cyfleoedd i fynychu digwyddiadau lleol addas. Cafwyd cais hefyd am wirfoddolwyr i fynychu digwyddiadau ar ran y BGC. **Cytunodd pawb â'r dull gweithredu hwn.**

**Cam gweithredu: Bydd y Tîm Cefnogi'r BGC yn dosbarthu rhestr o ddigwyddiadau a gymeradwywyd ar y cyd i'r partneriaid eu hystyried a'u cefnogi.**

Hysbysodd Claire Bryant (CB) y grŵp y bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Medi, a fydd yn cynnwys cynnal digwyddiadau grwpiau ymgynghori lleol.

**Cam gweithredu: Bydd Timothy Bray a Claire Bryant yn trafod digwyddiadau lleol yn seiliedig ar yr ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu.**

| 39.6 | Diweddariad y Cadeirydd: |
|---|---|

**i. Bwletin BGC Llywodraeth Cymru**

Dosbarthwyd copi o'r Bwletin diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y BGC yn flaenorol. Roedd y Bwletin yn cynnwys gwybodaeth am y Digwyddiad Dysgu a Rennir yn Wrecsam a fynychwyd gan HLL a TB.

**ii. Iechyd Cyhoeddus Cymru Agenda Gwaith Teg**

Ynghyd â'r papurau, cylchredwyd dogfen ganllaw ar gyflwyno polisi Gwaith Teg – Fe'u cylchredwyd i gynorthwyo sefydliadau sy'n aelodau i ddechrau ystyried gweithredu. Ychwanegodd TB fod y ddogfen hon yn cefnogi'r ymrwymiad a wnaed gan y Bwrdd yn ei amcanion tymor byr. Awgrymodd HLL y byddai'n fuddiol canfod a yw sefydliadau BGC eisoes yn gweithredu o ran gweithgareddau o dan y rhaglen *Gwaith Teg*, ac a yw hyn yn ffocws ar gyfer Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Awgrymodd HLL y gellid archwilio hyn ymhellach fel rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen, neu o bosibl o dan yr Is-grŵp Tlodi.

**Cam gweithredu: Bydd yr holl aelodau'n ystyried y ddogfen Gwaith Teg a chylchredwyd yn flaenorol.**
**Bydd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei ystyried er mwyn archwilio hyn ymhellach ar ôl trafodaeth gyda'r Is-grŵp Tlodi.**

**iii. Trafodaeth BGC ynghylch sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau**

Amlinellodd HLL fod angen ystyried sut mae'r Bwrdd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chymunedau wrth symud ymlaen. Yn benodol, mae symud tuag at ymgysylltu a chyfranogi parhaus yn hanfodol cyn yr Asesiad nesaf o Lesiant Lleol.

Ar yr adeg hon, gwahoddodd HLL un o'r mynychwyr allanol i ofyn cwestiwn ar ran grŵp 'Achub ein Canolfan - Ynys Las'. Siaradodd y mynychwr allanol â brwdfrydedd dros gadw Canolfan Ynys Las ac anogodd y BGC i gynnal ei fandad o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, gwnaed cais i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gynnal gweithrediadau'r Ganolfan.

Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd arwyddocaol cydweithredu a chydnabu y bydd dewisiadau anodd yn cael eu gwneud gan sefydliadau o ystyried y sefyllfa bresennol. Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd nodi materion yn brydlon, archwilio atebion, ac ystyried llwybrau amrywiol. Mae angen trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd.

Ar ran CNC, cydnabu Gillian Perry (GP) werth sylweddol yr adnodd hwn i'r gymuned a mynegodd nad oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â chau Canolfan Ynys Lan eto.
Un opsiwn sy'n cael ei ystyried yw'r posibilrwydd o gontract allanol i reoli a gweithredu'r Ganolfan i sefydliad cymunedol, endid preifat, neu grŵp sy'n gallu rhedeg y cyfleuster yn effeithiol.
Nododd GP fod cyfarfodydd y Bwrdd CNC ar agor i'r cyhoedd, a chadarnhaodd y bydd adborth o'r cyfarfod hwn yn cael ei rannu gyda chydweithwyr. Gwahoddwyd mynychwr allanol arall i siarad, a nododd fod cais am ail gyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud, ond bod hyn wedi'i wrthod. Awgrymodd HLL y gallai llinell amser o'r broses benderfynu fod yn fuddiol. Diolchodd y Cadeirydd y mynychwyr allanol am eu cyfranogaeth.

Gan barhau i drafod ymgysylltu, pwysleisiodd HLL bwysigrwydd sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn

cael eu clywed. Fel rhan o brosiect 'Dyfodol Ni' dan arweiniad Area 43, mae grŵp dan arweiniad pobl ifanc o'r enw S3 wedi'i sefydlu, ac maent wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi uchelgais y BGC i weithio'n agosach gyda'r demograffeg iau. Cydnabuwyd bod nifer o grwpiau eisoes yn edrych i gysylltu â demograffeg penodol, gan gynnwys y Grŵp Cyflawni Llesiant yn Aberteifi, sydd yn awyddus i gydlynu darn o waith i gefnogi'r fenter Ceredigion sy'n cefnogi menter Gyfeillgar i Oed. Awgrymodd HLL y byddai rhestr gynhwysfawr o grwpiau sydd eisoes yn ymgysylltu â darnau o waith sy'n ymwneud â demograffeg benodol yn fuddiol a chynigiodd y dylid trefnu bod cyflwyniad yn cael ei roi ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Trefnu rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar.**

| **39.7** | **BGC 23/24 Adroddiad Blynyddol - Fideo** |
|---|---|

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-2024 bellach yn ddyledus. Nododd TB fod Cadeirydd y BGC wedi cytuno i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar ffurf fideo. Bu cwmni cynhyrchu fideo yn ffilmio ar 18 Gorffennaf, gan gynnwys Cadeiryddion y BGC a'r Grŵp Cyflawni'n cael eu cyfweld ynghylch eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod, yn ogystal â phrosiectau cyfredol, llwyddiannau ac amlinelliad o sut y trefnwyd darpariaeth y BGC.

Y nod yw defnyddio'r fideo yn ystod digwyddiadau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o'r BGC a hyrwyddo ei waith mewn fformat hygyrch. Cafodd y drafft cyntaf o'r adroddiad fideo ei gylchredeg i aelodau er mwyn ei ystyried a rhoi sylwadau cyn y cyfarfod. Bydd unrhyw adborth a dderbynnir yn cael ei drosglwyddo i'r cwmni cynhyrchu fideo ar gyfer y golygiad terfynol.

Awgrymodd y Bwrdd y byddai'n fuddiol creu dogfen gryno ochr yn ochr â'r fideo, i dynnu sylw at negeseuon allweddol a hyrwyddo'r thema o wneud gwahaniaeth. Bydd fersiwn derfynol fideo'r Adroddiad Blynyddol a'r ddogfen ategol yn cael ei rhannu ag aelodau'r Bwrdd i'w gymeradwyo cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud newidiadau.

**Cam gweithredu: Bydd Tîm Cefnogi'r BGC yn rhannu adborth a dderbyniwyd gan aelodau gyda'r cwmni cynhyrchu fideo, a chylchredeg fersiwn derfynol yr Adroddiad gyda'r Bwrdd unwaith y bydd newidiadau wedi cael eu gwneud.**

**Cam gweithredu: Dogfen grynodeb gryno i'w chreu a'i chyflwyno ochr yn ochr â fideo'r Adroddiad Blynyddol i atgyfnerthu negeseuon allweddol.**

| **39.8** | **Ymgynghoriad ar Strategaeth y Gymraeg (25 munud)** |
|---|---|

Cyflwynodd Carys Lloyd-Jones (CLJ) ei hun fel Swyddog Polisi Iaith newydd Cyngor Sir Ceredigion. Eglurodd CLJ fod cyfnod presennol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn dod i ben yn 2023 gydag adroddiad cyrhaeddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith. Yn unol â gofynion statudol, mae Strategaeth newydd wedi'i drafftio ar gyfer 2024-2029.

Mae Safon 145 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth 5-mlynedd sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni o fewn yr ardal ehangach. Mae'r Strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae 4 thema strategol wedi'u gosod sy'n anelu at sicrhau bod Ceredigion yn fan lle mae'n bosibl dysgu, byw, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhagwelir y bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1.5% o 45.3% yn 2021 i 46.8% yn 2029. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o 612 o siaradwyr Cymraeg o'r llinell sylfaen yn 2021 Mae hyn yn golygu y dylai fod 32,292 o drigolion sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion erbyn 2029.

Cadarnhaodd CLJ fod rhanddeiliaid sy'n rhan o'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog wedi cymryd rhan, a'u bod wedi cael rhoi eu barn am y Strategaeth. Y cam nesaf fydd cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft gan y Cyngor Llawn, a'i rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn rhedeg tan **31 Awst 2024**. Nododd CLJ y byddai ymateb ffurfiol gan y BGC i'r ymgynghoriad i'w groesawu. Wrth symud ymlaen, bydd 4 grŵp strategol yn cael eu ffurfio i alinio a chyflawni yn erbyn y 4 thema strategol.

**Cam gweithredu: Bydd y Bwrdd yn cyflwyno ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Strategaeth y Gymraeg. Bydd tîm Cefnogi'r BGC yn cysylltu â'r Cadeirydd ynghylch y dull gweithredu.**

Llongyfarchodd Gwilym Dyfri Jones (GDJ) CLJ ar y Strategaeth ddrafft, gan nodi bod y Strategaeth yn sylfaen uchelgeisiol a chadarn ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Nododd GDJ hefyd y byddai mwy o bwyslais ar yr elfen economaidd yn cael ei groesawu, a sicrhau gwaith yn lleol i gadw pobl yng Ngheredigion. Awgrymodd HLL fod cysylltiad agos rhwng y Strategaeth a'r prosiect ARFOR y cyfeiriwyd ato ar ddechrau'r cyfarfod, a gellid ystyried hyn mewn cyfarfod o'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog.

**Cam gweithredu: Bydd manylion prosiect ARFOR yn cael eu rhannu gyda Carys Lloyd-Jones.**

Cynghorwyd partneriaid i gysylltu â CLJ pe baent â diddordeb mewn dod yn aelodau o'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog. Awgrymodd HLL fod CLJ yn cael ei gwahodd yn ôl i roi cyflwyniad ar y cynnydd a wnaed o ran y Strategaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: Bydd Carys Lloyd-Jones yn cael ei gwahodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Strategaeth y Gymraeg.**

| **39.9** | **Diweddariadau Grŵp Cyflenwi BGC:** |
|---|---|

**i)** **Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur** *(Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru)*

**SESIWN SBOTOLAU**

Yn ein cyfarfod diwethaf, cytunodd y BGC ar y dull o ddarparu sesiwn sbotolau o fewn y prif gyfarfod BGC. Byddai hyn yn rhoi amser estynedig i aelodau ystyried materion sy'n ymwneud â thema neu brosiect unigol yn fanylach.

Rhoddwyd sylw yn cyfarfod hwn i'r Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur a'r tair elfen allweddol ganlynol:

i) **Ras i Sero**

Holodd HLL a oedd unrhyw bartneriaid o amgylch y bwrdd wedi cofrestru ar gyfer Ras i Sero. Cadarnhaodd GP fod y mudiad wedi ennill momentwm mewn rhai meysydd, gyda rhai sefydliadau, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn dangos cefnogaeth iddo fel ffordd o weithio. Fodd bynnag, aeth GP ymlaen i ddweud ei fod yn ymddangos bod rhywfaint o anghysondeb o ran sut i symud ymlaen yn y ffaith bod Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi sefydlu a chymeradwyo dulliau yn eu lle yn y maes hwn. Awgrymwyd bod y penderfyniad i gofrestru ar gyfer ymgyrch Ras i Sero yn y pen draw yn nwylo partneriaid unigol.

ii) **Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru – Rhestr o Ymrwymiadau**

Cafodd Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDdUHB) ei gymeradwyo gan ei Fwrdd Gweithredol ar 5 Gorffennaf. Mae'r Siarter yn fframwaith sefydliadol sy'n hyrwyddo arferion teithio cynaliadwy i staff, ac mae wedi cael ei mabwysiadu'n eang ar draws gwahanol sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd hwn. Holodd GP am ddiddordeb posibl gan sefydliadau eraill i fabwysiadu Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys 17 addewid y gellir eu gweithredu dros gyfnod o flynyddoedd (3 blynedd yw'r canllaw a ddarperir).

Nododd Dr Ardiana Gjini (AG) nad oes angen unrhyw fuddsoddiad ariannol ar gyfer y Siarter am y

tro. Gyda 30% o weithlu Cymru yn cael ei gyflogi gan y sector cyhoeddus, gallai gweithredu Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru gael effaith sylweddol.

Adroddodd Barry Rees (BR) fod Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys yn cymryd rhan yng Nghydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru, sydd â chyfrifoldeb statudol am y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP). Gyda hyn mewn golwg, pwysleisiodd BR bwysigrwydd sicrhau bod Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyd fynd â'r Cynllun Teithio Rhanbarthol (RTP) yn ystod y cyfnodau cynnar i osgoi dyblygu a gwarantu nad oes blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Cynigiodd HLL y byddai sesiwn sbotolau ar deithio a thrafnidiaeth o fudd ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, ac awgrymodd y dylid cymhwyso Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy'r Grwpiau Cyflenwi ar sail lle o ystyried yr aliniad â Strategaeth Cymru Iach Pwysau Iach. Nododd BR bod awydd i wella hygyrchedd gwasanaethau yng Ngheredigion fel rhan o'r agenda tlodi gwledig. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau sy'n gwrthdaro o ran cyfeiriad strategol, a gall dilyn un amcan o bosibl danseilio'r llall. Sicrhaodd AG nad yw strwythur Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn annog y defnydd o ddulliau cludo angenrheidiol; Yn hytrach, mae'n hyrwyddo gwella hygyrchedd. Nododd Steve Thomas (ST) y byddai Prifysgol Aberystwyth yn ystyried Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru, a chynigiodd fod gwres yn elfen a allai gael effaith sylweddol o ran cynnydd yn y maes hwn.

**Cam gweithredu: Bydd y Tîm Cefnogi yn sicrhau bod cysylltiad yn cael ei sefydlu rhwng Bwrdd y Siarter Teithio Iach a Chydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i gefnogi aliniad a bod dim gwrth daro.**

**Cam gweithredu: Gwahodd Steve Thomas (Prifysgol Aberystwyth) i gyfarfodydd Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn y dyfodol.**

Gofynnodd GP i bartneriaid ystyried y wybodaeth am Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru o fewn eu sefydliadau priodol ac ystyried ei fabwysiadu.

**Cam gweithredu: Holl bartneriaid y BGC i ystyried ymuno â Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Cafodd aelodau wybod y bydd tudalen Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru ar adran Siarteri gwefan Teithio Iach Cymru erbyn diwedd Gorffennaf. Bydd botwm ar y dudalen honno y gall sefydliadau ei ddefnyddio i gofrestru eu diddordeb mewn ymuno â'r Siarter. Bydd rhagor o fanylion am y dudalen we hon yn cael eu rhannu ag aelodau maes o law.

**Cam gweithredu: Manylion Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w rhannu gyda'r holl bartneriaid.**

iii) **Asesiad Risg Newid Hinsawdd**

Elfen olaf y sesiwn sbotolau oedd yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd. Esboniodd GP fod yn ofynnol i'r BGC ymgymryd â'r Asesiad Risg, ac er nad oes cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer y darn hwn o waith, mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ceisio cyllid allanol i ymgysylltu ag ymgynghorwyr a chychwyn ar y broses. Nododd HLL bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o unrhyw gyllid sydd ar gael i ganiatáu i'r BGC gyflwyno ceisiadau. Er bod yr Asesiad yn cael ei drin yn wahanol ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, mae CNC wedi datblygu fframwaith i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r broses. Awgrymodd GP y byddai'r gwaith yn dod o dan y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn y lle cyntaf, ond y dylai'r cyfrifoldeb hwn fod yn y pen draw ar y Bwrdd cyfan.

Awgrymodd BR fapio'r hyn y mae sefydliadau eisoes yn ei wneud, a gweithio i alinio strategaethau lleihau carbon sydd eisoes ar waith. Mae'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wedi cefnogi Sir

Gaerfyrddin wrth ddrafftio eu Hasesiad Risg cychwynnol. Cynhaliwyd gweithdy ganddynt i adolygu'r gwaith mapio, a byddai hyn yn mynd i'r afael â'r tri cham cyntaf a amlinellwyd gan CNC. Gellid efelychu'r model hwn yng Ngheredigion o bosibl.

**Cam gweithredu: Bydd y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn cynnal gweithdy ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn ystod cyfarfod yn y dyfodol, gydag aelodau eraill o'r Grŵp Cyflawni yn cael eu gwahodd.**

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn cael ei gynnal yng nghlwb Golff Aberystwyth a bydd yn cynnwys ymweliad â Choedwig Penglais sydd wedi cwblhau gwaith pellach ar y safle yn ddiweddar. Mae ffocws y Grŵp ar Amcan 3 o fewn y Cynllun Llesiant Lleol, (Cyflwyno mentrau datgarboneiddio ar draws Ceredigion). Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Ynni Ardal Leol a Chynllun Ynni Canolbarth Cymru - gofynnir i bartneriaid fonitro'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r tasgau o fewn y Cynllun cyn pob cyfarfod a chofnodir y cynnydd.

Nodwyd tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Grŵp hwn yn dilyn cyfres o weithdai:

- Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.
- Ceisio diogelu a gwella iechyd a gwydnwch ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da, sy'n effeithlon o ran ynni ac sy'n addas i bawb.

---

ii. **<u>Grŵp Cyflawni Llesiant yn Aberteifi</u>** (Hazel Lloyd Lubran, CAVO)

Rhannwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill gyda'r papurau. Rhoddodd HLL ddiweddariad ar lafar ar y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ddechrau mis Gorffennaf. Derbyniodd y grŵp ddiweddariad ar brosiectau presennol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn ardal Aberteifi, yn ogystal â chyflwyniad ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar a manylion am ei lansiad ar 30 Medi. Bydd gweithdy sydd ar y gweill ym mis Hydref yn canolbwyntio ar ddatblygiad Hwb Llesiant Aberteifi.

---

iii. **<u>Grŵp Cyflawni Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan</u>**

(*Gwylim Dyfri Jones, Prifysgol y Drindod Dewi Sant*)

Rhannwyd Cofnodion Mis Ebrill gyda'r papurau.

Rhoddodd GDJ ddiweddariad ar lafar ar y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ddechrau mis Gorffennaf, ar ran Cadeirydd y Grŵp, Greg Jones. Rhoddwyd cyflwyniad gan Reolwr Datblygu Lleol a Chydlynydd Gofal Clinigol ar Beilot Gofal Canolradd yn Seiliedig ar ardal Llanbedr Pont Steffan a Datblygu Tîm Aml-Asiantaeth. Bwriad y prosiect yw trawsnewid ac adeiladu ar y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal canolradd integredig, sy'n canolbwyntio ar y claf. Rhoddwyd cyflwyniad hefyd gan Gydlynydd Cymunedau Cynaliadwy Llambed ar fenter sy'n ceisio mynd i'r afael â nifer yr achosion o unigedd ac unigrwydd yn y gymuned leol a'u lliniaru. Ynglŷn â Grŵp Llywio Prosiect Ieuenctid Llambed, Derbyniwyd diweddariadau ar lansiad y Feelz on Wheelz Caffi Ieuenctid Symudol, a chais am gyllid gan *Stage Goats* i'r loteri a Chynnal y Cardi.

| 39.10 | Y diweddaraf am Lunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru |
|---|---|

Cyflwynodd Emily Woodward-Esseen (EWE) ei hun fel y Prif Ymarferydd Meddwl Cymhwysol trwy Systemau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan arwain ar y rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru. Bydd y rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru yn darparu adnodd cenedlaethol i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddefnyddio dull Systemau sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth yn eu gwaith i ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd ehangach wrth iddynt weithredu eu Cynlluniau Llesiant, gan rannu dysgu rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar draws y DU.

Yn seiliedig ar Gynlluniau Llesiant BGC presennol, sefydlodd y rhaglen dri grŵp dysgu cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar y themâu canlynol: Argyfwng Hinsawdd a Natur, Tlodi ac anghydraddoldeb, a

Lles y gymuned. Bydd y grwpiau hyn yn ymgynnull dros gylch dwy flynedd i rannu eu mewnwelediadau a beth maent wedi ei ddysgu. Bydd Tîm Llunio Lleoedd yn cynnal map systemau cynhwysfawr i nodi'r ffactorau rhyng-gysylltiedig sy'n cyfrannu at yr heriau hyn.

Cynhaliwyd digwyddiad deuddydd ym mis Mehefin, gan ddod â'r grwpiau dysgu at ei gilydd, gyda sesiynau gweithdy dilynol yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf. Y camau nesaf fydd cytuno ar y system o ddiddordeb i bob grŵp, adolygu aelodaethau, a datblygu cytundeb dysgu gyda phob BGC. Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd sicrhau bod partneriaid yn cael gwybod am y rhaglen a chytunwyd ei bod yn allweddol bod y cynrychiolwyr cywir yn mynychu'r grwpiau dysgu wrth symud ymlaen. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i  Gadeiryddion y Grwpiau Cyflawni a staff cymorth dethol mynychu.

Cytunwyd gan EWE mai'r dull cychwynnol ar gyfer Ceredigion fyddai annog Cadeiryddion y grwpiau cyflenwi a chynrychiolwyr o'r tîm cymorth i gymryd rhan yng ngweithdai'r rhaglen. Mynegodd y partïon dan sylw eu cefnogaeth wrth fabwysiadu'r dull sy'n seiliedig ar systemau fel safon, a mynegodd hefyd eu brwdfrydedd dros gydweithio ar hyn yn rhanbarthol wrth symud ymlaen.

| 39.11 | **Diweddariad Is-grŵp Tlodi** |
|---|---|

Darparodd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) ddiweddariad ar waith yr is-grŵp tlodi. Cadarnhawyd bod aelodaeth y grŵp wedi cael ei adolygu'n ddiweddar, a gwahoddwyd cynrychiolwyr ychwanegol i fod yn bresennol i ehangu trafodaethau. Mae Blaengynllun Gwaith wedi'i greu a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 a Chynllun Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Bydd fideo profiad bywyd yn cael ei greu yn ystod y misoedd nesaf a fydd yn amlygu'r heriau a wynebir gan y rhai sy'n profi caledi yng Ngheredigion. Gofynnodd CD i unrhyw awgrymiadau ar gyfer profiadau y gellid eu cynnwys yn y fideo gael eu rhannu gyda'r Tîm Partneriaethau.

Mae bwletin costau byw misol yn cael ei rannu ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, gan ganolbwyntio ar thema benodol bob mis. Mae cais hefyd wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid fel rhan o'r Grant Tlodi Plant, gyda'r nod o gefnogi a hwyluso ymgysylltu. Nododd CD fod yr is-grŵp yn defnyddio'r dangosfwrdd Data Tlodi i lywio ei waith – Er bod hwn yn offeryn gwerthfawr, dim ond yn fewnol o fewn Cyngor Sir Ceredigion y mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd. Byddai ymestyn y drwydded i bartneriaid gael mynediad i'r dangosfwrdd yn costio £5,000, holodd CD a oedd partneriaid yn ymwybodol o unrhyw ffrydiau ariannu a allai gefnogi hyn. Awgrymodd HLL y gallai CAVO helpu gyda hyn.

Awgrymodd HLL hefyd fod yr Is-grŵp Tlodi yn ymchwilio i effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol a chartrefi newydd, a fyddai'n cyd-fynd â menter y mae'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn edrych arni gyda'r Gymdeithas Tai.

| 39.12 | **Adborth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

Rhannwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chydlynu Craffu fel rhan o'r papurau cyn y cyfarfod hwn.

Nododd Diana Davies (DD) fod siom wedi ei mynegi yn ystod cyfarfod diweddar y Pwyllgor ynghylch y cyllid ar gyfer rhaglen ARFOR yn dod i ben. Yn sgil hyn, gwnaed ymholiadau ynghylch bwriadau'r BGC i bwysleisio pwysigrwydd y gefnogaeth hon i Lywodraeth Cymru. Cynigiodd HLL y dylid ystyried hyn ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd cyllid pellach ar gael y flwyddyn nesaf.

| 39.13 | **Unrhyw fusnes arall:** |
|---|---|

Cyflwynodd Michael Langford (ML) ei hun fel Rheolwr Prosiect yn Swyddfa Rhaglen Trawsnewid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rhoddodd ML gyflwyniad byr ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol BIPHDd, sy'n anelu at ddatblygu cyfres o opsiynau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen mewn ymateb i fregusrwydd neu anghynaliadwyedd gwasanaethau, yn seiliedig ar egwyddorion gofal sy'n saff, yn

| | |
|---|---|
| gynaliadwy, yn hygyrch, ac yn garedig.<br>**Cam gweithredu: Y Tîm Cefnogi'r BGC i gylchredeg gwybodaeth bellach ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.**<br><br>Ni chodwyd unrhyw fusnes arall. Diolchodd HLL i'r rhai a oedd yn bresennol am eu hamser a'u cyfraniadau. | |
| **39.16** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>16 Medi 2024 am 14:00-16:00<br>2 Rhagfyr 2024 am 14:00-16:00 |

| | Cofnod o'r camau gweithredu sy'n parhau | |
|---|---|---|
| 1 | Cylchredeg gwybodaeth ynghylch rhaglen ymchwil gan ARFOR sy'n ymchwilio i ragolygon recriwtio unigolion ifanc yng Ngheredigion. | Tîm Partneriaethau |
| 2 | Rhannu'r copi terfynol o'r Cynllun Cyflawni a'r rhestr o acronymau gyda'r aelodau yn dilyn y cyfarfod. | Tîm Partneriaethau |
| 3 | Cynnwys nodyn ar ddogfennau a rennir / a rennir ar-lein yn nodi – Yn destun adolygiad a diweddariad rheolaidd, gan gynnwys arddangos rhif fersiwn y ddogfen yn glir. | Tîm Partneriaethau |
| 4 | Sicrhau bod y Grŵp Celfyddydau a Diwylliant yn cael ei gynrychioli ar y siart sefydliadol. | Tîm Partneriaethau |
| 5 | Tîm Cefnogi'r BGC i ddatblygu a dosbarthu rhestr o ddigwyddiadau a gymeradwywyd ar y cyd i'r partneriaid eu hystyried a'u cefnogi. | Tîm Partneriaethau |
| 6 | Bydd Timothy Bray a Claire Bryant yn trafod digwyddiadau lleol yn seiliedig ar yr ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu. | TB a CB |
| 7 | Yr holl aelodau'n ystyried y ddogfen Gwaith Teg a chylchredwyd yn flaenorol.<br>Bydd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei ystyried er mwyn archwilio hyn ymhellach ar ôl trafodaeth gyda'r Is-grŵp Tlodi. | PAWB<br><br>Tîm Partneriaethau |
| 8 | Trefnu rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol ar y Strategaeth Oed Gyfeillgar. | Tîm Partneriaethau |
| 9 | Tîm Cefnogi'r BGC i rannu adborth a dderbyniwyd gan aelodau gyda'r cwmni cynhyrchu fideo, a chylchredeg fersiwn derfynol yr Adroddiad gyda'r Bwrdd unwaith y bydd newidiadau wedi cael eu gwneud. | Tîm Partneriaethau |
| 10 | Dogfen grynodeb gryno i'w chreu a'i chyflwyno ochr yn ochr â fideo'r Adroddiad Blynyddol i atgyfnerthu negeseuon allweddol. | Tîm Partneriaethau |
| 11 | Y Bwrdd i gyflwyno ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Strategaeth y Gymraeg. Bydd tîm Cefnogi'r BGC yn cysylltu â'r Cadeirydd ynghylch y dull gweithredu. | PAWB<br>Tîm Partneriaethau |
| 12 | Rhannu manylion prosiect ARFOR gyda Carys Lloyd-Jones. | Tîm Partneriaethau |
| 13 | Carys Lloyd-Jones i'w gwahodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Strategaeth y Gymraeg. | Tîm Partneriaethau |
| 14 | Bydd y Tîm Cefnogi yn sicrhau bod cysylltiad yn cael ei sefydlu rhwng Bwrdd y Siarter Teithio Iach a Chydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru i gefnogi aliniad a bod dim gwrth daro. | Tîm Partneriaethau |
| 15 | Gwahodd Steve Thomas (Prifysgol Aberystwyth) i gyfarfodydd Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn y dyfodol. | Tîm Partneriaethau |
| 16 | Holl bartneriaid y BGC i ystyried ymuno â Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru. | PAWB<br>Tîm Partneriaethau |
| 17 | Manylion Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w rhannu gyda'r holl bartneriaid. | Tîm Partneriaethau |
| 18 | Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur i gynnal gweithdy ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn ystod cyfarfod yn y dyfodol, gydag aelodau eraill o'r Grŵp Cyflawni yn cael eu gwahodd. | Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur |

| | | |
|---|---|---|
| 19 | Tîm Cefnogi'r BGC i gylchredeg gwybodaeth bellach ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol BIPHDd. | Tîm Partneriaethau |